Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Eglwyswrw

**Eglwyswrw**
**Crymych**
**Sir Benfro**
**SA41 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Eglwyswrw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Eglwyswrw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 99 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 81 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 0.7% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysg arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 37% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 76.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2022 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 10/12/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/10/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Eglwyswrw yn ysgol hapus, gynhwysol a chroesawgar iawn sy’n rhoi pwyslais cryf ar ddathlu Cymreictod a pharchu eraill. Mae bron bob disgybl yn falch iawn o’u hysgol ac yn cyfrannu’n werthfawr at yr ethos gofalgar sy’n bodoli. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac maent yn dangos parch, cwrteisi a gofal tyner tuag at eu cyfoedion, ymwelwyr ac aelodau’r gymuned leol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Nodwedd gref yw eu defnydd o’r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith yr ysgol, gyda’r rhan fwyaf yn medru defnyddio’u medrau’n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mae’r rhan fwyaf yn adeiladu’n gynyddol ar eu medrau ysgrifennu gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog yn eu gwaith a chyflawni safonau da ar draws yr ysgol.

Mae’r staff yn cyrchu barn rhieni/gofalwyr a disgyblion yn llwyddiannus er mwyn cynllunio themâu difyr sy’n ysbrydoli a sicrhau ymroddiad bob disgybl. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau ysgogol ar draws bob un o’r meysydd dysgu a phrofiad. Ar draws yr ysgol, mae’r awyrgylch bositif o fewn dosbarthiadau yn annog cymunedau dysgu effeithiol a phwrpasol. Er bod athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu yn eu dosbarthiadau, mae’r tueddiad i or-arwain ar adegau yn llesteirio gallu’r disgyblion i weithio ar dasgau yn gwbl annibynnol ac i herio’u hunain. Yn gyffredinol, nid yw athrawon bob tro’n sicrhau tasgau a phrofiadau dysgu a chwarae sy’n herio’r disgyblion i gyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig y rhai mwyaf abl.

Mae’r pennaeth newydd wedi ymgartrefu’n dda ac wedi rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda rhanddeiliaid. Mae’n cyfrannu’n dda at sicrhau awyrgylch gynhwysol a gofalgar sy’n seiliedig ar barch a gwerthfawrogiad o gyfraniadau eraill. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth yn bodoli rhwng disgyblion a staff. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r materion sydd angen eu gwella, ac mae’n awyddus i fireinio’r addysgu ar draws yr ysgol er mwyn diwallu anghenion bob disgybl. Mae aelodau’r corff llywodraethol wedi dangos cefnogaeth gadarn i’r pennaeth newydd ers ei phenodiad, ac yn cyfrannu’n werthfawr at lwyddiant yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu

A2 Sicrhau lefel briodol o her ar gyfer pob disgybl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Maent yn adeiladu ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau yn llwyddiannus gyda'r rhan fwyaf yn galw dysgu blaenorol i gof a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg yn nodwedd gref. Maent yn datblygu medrau ieithyddol cryf iawn ac yn eu defnyddio'n hyderus mewn cyd-destunau gwahanol. Mae bron bob un disgybl yn adeiladu'n llwyddiannus iawn ar eu medrau llafar, gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog ynghyd â thafodiaith yn gwbl rugl, naturiol ac yn raenus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n arbennig o dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwrando'n astud mewn sesiynau stori ac wrth wrando ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau athrawon a chynorthwywyr. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn gwrando'n ddeallus ar ei gilydd ac yn cymryd eu tro'n ystyrlon wrth ymateb yn aeddfed ac yn fedrus i drafodaethau. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cysylltiadau da rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal ag ystyried tafodiaith mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn trafod ystyr geirfa ac ymadroddion yn ôl y lleoliad.

Mae medrau darllen bron bob un disgybl yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus gan ddangos mwynhad wrth wrando ar storïau a dyfalu'r hyn sy'n digwydd nesaf. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o dechnegau darllen yn fedrus ac yn darllen yn glir a dealladwy. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ynganu'n glir ac yn defnyddio goslef llais yn effeithiol wrth ddarllen. Maent yn ddarllenwyr brwd sy'n mwynhau darllen a thrafod eu hoff lyfrau ac awduron. O ganlyniad, maent yn defnyddio'u medrau darllen uwch yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth i gefnogi'u dysgu.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Maent yn ymarfer gwneud patrymau a siapiau mawr yn llwyddiannus yn ogystal ag ymarfer eu medrau modur mân, er enghraifft trwy ddefnyddio brws paent i greu patrymau mawr ac wrth rolio a chreu siapiau allan o does. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn ystod briodol o ffurfiau ysgrifennu. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau ysgrifennu gan ysgrifennu'n fwyfwy estynedig a defnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfoethog yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau yn effeithiol iawn i gyfoethogi eu gwaith i greu erthygl papur newydd am drychineb Aberfan. Yn ogystal, mae'r disgyblion mwyaf abl ym Mlwyddyn 6 yn ysgrifennu at bwrpas i safon uchel iawn wrth ysgrifennu erthyglau misol am fywyd yr ysgol ar gyfer y papur bro. Mae hyn yn cefnogi eu gallu i ysgrifennu at wahanol gynulleidfaoedd ac yn datblygu eu gallu i wella eu gwaith eu hunain wrth fynd drwy'r broses olygu.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion ieuengaf yn caffel medrau sylfaenol mathemateg yn

briodol, er enghraifft trwy adnabod amrywiaeth o siapiau cyfarwydd a chyfri gwrthrychau hyd at 10. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth drylwyr o nodweddion mathemategol ac yn eu defnyddio’n hyderus yn eu profiadau dysgu a chwarae, er enghraifft trwy fesur hyd lindys gan ddefnyddio unedau safonol a’u gosod mewn trefn yn ôl maint. Mae disgyblion yn adeiladu ar eu medrau rhifedd yn gynyddol hyderus yn eu gwersi mathemateg ac, ar adegau, i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Maent yn cyfuno eu medrau a’u dealltwriaeth o wahanol apiau a rhaglenni cyfrifiadurol yn gynyddol hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn cymhwyso’u medrau digidol a chyfathrebu yn llwyddiannus, er enghraifft i greu animeiddiad byr i adlewyrchu canlyniadau arbrawf ar gyfradd toddi ia. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu gallu i gyfuno dulliau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Yn yr arfer orau, mae’r disgyblion yn cymhwyso’u medrau digidol yn grefftus i ddatrys problemau heriol, er enghraifft trwy ddefnyddio rhaglen adeiladu 3D ar-lein i greu adnodd cymunedol rhithwir ar gyfer y clwb rygbi lleol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn, gyda phrofiadau buddiol iddynt greu gwaith celf a cherddoriaeth, yn ogystal â pherfformio i wahanol gynulleidfaoedd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae gan Ysgol Eglwyswrw awyrgylch hapus a chartrefol ble mae bob disgybl yn dangos gofal a pharch uchel at bawb sy’n rhan o’r gymuned ofalgar hon. Mae hyn yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn falch iawn o’u hysgol ac yn teimlo’n hapus o fewn yr amgylchedd hamddenol a theuluol sydd ynddi. Maent yn gwerthfawrogi’r gofal, y profiadau a’r addysg maent yn eu cael o fewn amgylchedd ddysgu gynhwysol, sy’n adlewyrchu arwyddair yr ysgol sef ‘Blagurwn, Tyfwn Gyda’n Gilydd’. Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda iawn tu fewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth ac maent yn dangos parch, cwrteisi a gofal tyner tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn falch iawn o’u cymuned ac yn mwynhau dysgu am eu hardal ac am eu diwylliant Cymreig, er enghraifft wrth gerdded ar hyd y mynyddoedd cyfagos sy’n gysylltiedig ag enwau’r dosbarthiadau.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol wrth drafod eu teimladau ag eraill a dangos empathi i'w cyfoedion. Mae hyn yn elfen gref o waith yr ysgol gyda chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fynegi eu teimladau a chael cymorth yn ôl yr angen. Mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau iachus mewn perthynas â diet a byw’n iach, er enghraifft wrth iddynt greu llyfr ryseitiau ar fwyta’n iach yn ystodeu gwaith ar y thema ‘llond bol’. Yn ogystal, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i dyfu llysiau yn yr ysgol i hybu bwyta’n iach. Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd gadw’r corff yn iach ac yn ymrwymo i’r holl weithgareddau corfforol sy’n cael eu cynnig gan yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o weithdrefnau cadw'n ddiogel ar-lein. Adnodd defnyddiol yw'r fideo gan ddisgyblion y Cabinet Digidol sy'n rhoi negeseuon clir ac ymarferol ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r disgyblion yn cyflwyno'r negeseuon pwysig hyn yn raenus, yn hyderus ac yn ddeallus.

Mae agwedd disgyblion at eu dysgu yn arbennig o dda ac mae'r rhan fwyaf yn ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Maent yn ddysgwyr hynod weithgar sy'n dangos diddordeb mawr yn eu dysgu. Mae bron bob un yn cydweithio'n arbennig o dda ag eraill gan ddangos parch, gofal a chefnogaeth i'w cyfoedion o fewn a thu allan i'r dosbarth. Maent yn ddisgyblion sy'n ymroi'n llwyr i weithgareddau a phrofiadau dysgu, gan geisio rhoi o'u gorau bob tro.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfrannu'n werthfawr iawn i wersi a gweithgareddau. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill yn effeithiol, er enghraifft wrth wrando ar, ac ymateb i, syniadau cyfoedion wrth drafod cynnwys eu llyfrau darllen. Er nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd amserol i arwain eu dysgu'u hunain yn hollol annibynnol, mae bron bob un ymateb yn llwyddiannus i ddilyn arweiniad athrawon a chynorthwywyr i gwblhau tasgau. Maent yn dangos gwydnwch wrth wneud hynny drwy ddefnyddio ystod o fedrau o ddysgu blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynu ac adborth llafar gan yr athrawon yn ystod gwersi. Yn gyffredinol, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith yn dilyn adborth. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y ffordd maent yn cyflwyno o'r eu gwaith, sydd o safon uchel.

Er bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb y llynedd, mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros yr un cyfnod gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd. Er gwaethaf achosion o salwch ymhlith disgyblion y tymor hwn, mae'r cyfraddau presenoldeb hyd yn hyn yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau ysgogol ar draws bob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae athrawon yn cydweithio'n dda â rhieni a disgyblion er mwyn cynllunio themâu difyr sy'n ysbrydoli a sicrhau ymroddiad bob disgybl. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm gan sicrhau eu bod yn ehangu a dyfnhau eu medrau ymhellach. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ysgrifennu at ddibenion gwahanol mewn ystod dda o ffurfiau ysgrifenedig, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu medrau. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ddefnyddio'u medrau digidol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy greu bas data canghennog er mwyn creu allwedd i adnabod gwahanol anifeiliaid. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cynllunio'n addas i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn nifer o gyd-destunau priodol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau a'u herio eu hunain trwy ymchwilio, arbrofi a datrys problemau yn gwbl annibynnol neu wrth gydweithio ag eraill.

Ar draws yr ysgol, mae'r awyrgylch bositif o fewn dosbarthiadau yn annog cymunedau dysgu effeithiol a phwrpasol. Yn ddieithriad, mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas weithio gynhyrchiol iawn gyda'r disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi sydd yn arwain at ethos cynhaliol yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i brofiadau dysgu a chwarae ac yn trafod eu gwaith a'u llwyddiannau yn hyderus gyda chyfoedion ac oedolion. Mae'r staff yn modelu iaith raenus yn effeithiol ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg llafar o safon uchel yn gyson. Mae'r ddarpariaeth o ran datblygu medrau llafar y disgyblion yn gadarn iawn, a chaiff y disgyblion gyfleoedd difyr iawn i ddatblygu eu gwybodaeth am hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru.

Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu a phrofiadau chwarae yn llwyddiannus, gan gefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus. Er enghraifft, trwy weithredu ymyraethau a chefnogaeth lles i ddisgyblion yn ogystal ag arwain ar brosiectau cyffrous fel creu adnodd cymunedol rhithwir gyda grŵp o ddisgyblion hynaf yr ysgol gan ddefnyddio rhaglen adeiladu 3D ar-lein.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd ddysgu bwrpasol a diddorol lle mae arddangosfeydd deniadol a phwrpasol yn dathlu gwaith y disgyblion yn effeithiol. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae ymarferwyr yn sicrhau mynediad addas i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardaloedd allanol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau cyflymder addas i'w gwersi a'u sesiynau dysgu a chwarae. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn briodol ac yn eu cefnogi'n fuddiol mewn ystod addas o weithgareddau. Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr yn cyflwyno profiadau dysgu a chwarae sy'n cefnogi disgyblion i ddysgu gydag arweiniad oedolyn, ac i gymhwyso eu medrau yn lled annibynnol. Er eu bod yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu ac adnoddau, mae'r tueddiad i or-arwain y disgyblion ar adegau yn llesteirio'u gallu i weithio ar dasgau yn gwbl annibynnol ac i herio'u hunain. Yn gyffredinol, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau tasgau a phrofiadau dysgu a chwarae sy'n herio'r disgyblion i gyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig y rhai mwyaf abl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu hyder wrth hunanwerthuso eu gwaith. Ar y cyfan, maent yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol er mwyn annog y disgyblion i ystyried beth maent yn gwneud yn dda a sut i wella'u gwaith. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gyflawniad disgyblion ynghyd â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos hapus, cynhwysol a chroesawgar iawn yn yr ysgol. Mae'r pwyslais cryf ar ddathlu Cymreictod a pharchu eraill yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu disgyblion sy'n gwrtais, yn ymddwyn yn dda ac yn falch o'u hysgol a'i chymuned. Mae staff yn cynllunio cefnogaeth yn ofalgar er mwyn diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos empathi a pharch at eu cyfoedion a'r staff, gyda phawb yn dangos gofal tyner dros ei gilydd. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir tuag at iechyd meddwl a lles disgyblion trwy gynnig cyfleoedd helaeth iddynt drafod eu hemosiynau mewn amryw ffyrdd. Er enghraifft, maent yn cael cyfleoedd buddiol i drafod eu teimladau gydag aelod o staff neu trwy nodi eu pryderon ym mocs 'Y Bwystfil Becso'.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth wedi eu teilwra er mwyn ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol. Mae bron bob aelod o staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar er mwyn darparu cefnogaeth bwrpasol iddynt. Mae gan bob disgybl broffil un tudalen sy'n pennu targedau pwrpasol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol gan gynnwys cefnogaeth reolaidd gan dîm iaith a lleferydd yr awdurdod lleol. Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n wybodus ac yn fedrus iawn wrth iddynt gefnogi nifer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu'n gryf ar benderfyniadau strategol yn ogystal â chynnwys eu themâu dosbarth. Mae disgyblion yn siarad yn frwd am eu gweithgarwch amrywiol o fewn pwyllgorau fel 'Gadael Gwreiddiau' megis y Senedd, Llyfrgellwyr, Cabinet Iaith a Diwylliant a'r Pwyllgor Presenoldeb, y Cabinet Digidol a'r Cabinet Amgylchedd. Mae bron bob disgybl yn rhan o'r pwyllgorau hyn ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau o ddifri gan gyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae nifer helaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig yn y clwb ar ôl ysgol, gyda'r holl weithgareddau yn seiliedig ar ddyheadau'r disgyblion.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn trafod yn synhwyrol bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn gwella'u medrau ac i gefnogi'r iaith Gymraeg o fewn eu cymunedau lleol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at fywyd y gymuned leol, yn ogystal â dysgu mwy am eu treftadaeth a diwylliant Cymru. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith a wnaeth y disgyblion am ddarganfod hanesion lleol fel brwydr y Preselau yn ystod eu thema am yr Ail Ryfel Byd. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu i'r papur bro lleol yn rheolaidd lle maent yn cyfeirio at wahanol ddigwyddiadau a phrofiadau i'w dathlu a'u rhannu gyda'u cymuned. Mae partneriaethau cymunedol yr ysgol yn sicrhau ymdeimlad o berthyn gyda gweithgareddau rheolaidd rhwng yr ysgol a mudiadau ieuenctid fel y clwb ffermwyr ifanc.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli sy'n sicrhau amser i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir edrych ar ôl ei gilydd. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am gredoau crefyddau eraill trwy ddarganfod mwy am eu traddodiadau a'u prif ddathliadau. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd ehangach gan gynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wedi datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol sydd yn hyrwyddo myfyrdod meddyliol a chorfforol yn llwyddiannus trwy amser cylch, gwersi nofio, clybiau chwaraeon a theithiau cerdded yn yr ardal leol. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau creadigol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft wrth ymgymryd â gwersi piano a thelyn wythnosol. Mae'r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae teithiau i leoliadau fel fferm fêl leol yn sbarduno'r disgyblion i ddysgu mwy am fywyd natur a'r byd o'u cwmpas. Mae cyfleoedd

pwrpasol i ddisgyblion berfformio a datblygu'u dychymyg trwy'r celfyddydau mynegiannol a chreadigol. Er enghraifft, mae llwyddiannau'r ysgol mewn eisteddfodau a chystadlaethau darllen cenedlaethol sy'n datblygu hunanhyder a medrau'r disgyblion yn dda.

Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon fel camddefnyddio'r we. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau staff rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth newydd wedi ymgartrefu'n dda ac wedi rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a gofalwyr, y llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae hi wedi llwyddo i sicrhau awyrgylch gynhwysol a gofalgar sy'n seiliedig ar barch a gwerthfawrogiad o gyfraniadau eraill. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs yr ysgol. Mae gwerthoedd fel hybu Cymreictod, cynnal disgwyliadau uchel o ran y Gymraeg ac annog disgyblion i barchu cyflwyniad ac ansawdd eu gwaith yn deillio o ddyheadau uchelgeisiol cytûn arweinwyr a staff.

Trwy ailddiffinio rôlau a chyfrifoldebau i ymateb i ofynion y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pennaeth wedi llwyddo i sefydlu ethos tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr. Mae cyfarfodydd a thrafodaethau staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar les a safonau disgyblion wrth flaenoriaethu meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae ffocws strategol clir gan holl staff yr ysgol ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau gwelliannau i ddisgyblion.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda iawn. Mae aelodau'r corff wedi dangos cefnogaeth gadarn i'r pennaeth newydd ers ei phenodiad. Mae ganddynt gyfrifoldebau am agweddau penodol o flaenoriaethau cyfredol y cynllun gwella sy'n eu galluogi i gefnogi'r ysgol a chyflawni eu dyletswyddau'n llwyddiannus. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymwelwyr cyson â'r ysgol ac yn ymgymryd â theithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac yn siarad â disgyblion er mwyn cefnogi a monitro perfformiad. O ganlyniad, mae ganddynt rôl ragweithiol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol ac maent yn arddangos dealltwriaeth sicr o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth newydd wedi sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr a'r gymuned leol. Mae gweithdrefnau hyblyg yr ysgol yn sicrhau bod y pennaeth a'r staff ar gael i drafod unrhyw fater sy'n effeithio ar les neu addysg disgybl. Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i gyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu newyddion, a rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau pwysig yng nghalendr yr ysgol. Mae rhieni a gofalwyr hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu'n adeiladol at yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd a gânt ar ddechrau bob tymor i gyfrannu'n bwrpasol at themâu'r dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanwerthuso effeithiol sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar farn rhanddeiliaid ac yn cynnwys eu safbwyntiau'n bwrpasol wrth lunio cyfeiriad strategol yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion y Senedd Ysgol yn cael cyfle i fynegi barn yn hyderus ar sut i wella'r ardal allanol. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun gwella, sy'n canolbwyntio'n fwriadus ar wella'r ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr ysgol yn sicrhau atebolrwydd staff am safon y dysgu a'r addysgu ynghyd â lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol flaenoriaethau addas a meini prawf llwyddiant mesuradwy er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n fanwl er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mewn amser byr a chyda chefnogaeth rhanddeiliaid yr ysgol a'r awdurdod lleol, mae'r pennaeth wedi gosod nifer o strategaethau gwerthfawr ar waith sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ymfalchïo yn eu cymuned, eu diwylliant a'u treftadaeth.

Mae arweinwyr yn hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff yn bwrpasol. Defnyddir arbenigeddau athrawon a staff cymorth yn fedrus i wella medrau a phrofiadau disgyblion. O ganlyniad, mae dysgu proffesiynol i wella'r ddarpariaeth a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn dylanwadu'n gadarnhaol ar strategaethau addysgu ar draws yr ysgol gyfan. Enghraifft dda o hyn yw'r modd yr hyrwyddir egwyddorion y cwricwlwm newydd yn fedrus wrth gynllunio ac ysgogi'r dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r cwricwlwm ac maent yn defnyddio'r adnoddau'n effeithiol. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac yn adolygu gwariant yn fanwl i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau'r cynllun gwella yn briodol ac yn gwneud defnydd addas o'r cyllid a grantiau i gyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022